

Afasic
CYMRU
voice for life
llais ar gyfer bywyd

Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oed ysgol
Synau lleferydd



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Mae cerrig milltir lled gywir ar gyfer dysgu rhai synau lleferydd ond mae plant fel arfer yn amrywio wrth iddynt ddatblygu lleferydd.

Mae plant yn dysgu synau lleferydd yn raddol. Mae synau lleferydd unigol yn cael eu cyfuno'n batrymau i wneud geiriau. Mae'r patrymau'n dechrau'n syml ac yn mynd yn hwy ac yn fwy cymhleth wrth i'r plentyn ddatblygu.

Mae'r ffordd y mae plentyn yn dweud gair yn naturiol yn newid dros amser fel y mae ei lleferydd yn datblygu ac y daw i ymdopi â synau a geiriau mwy cymhleth. Golyga hyn bod gwneud camgymeriadau yn rhan arferol o ddatblygu lleferydd eglur.

Enghraifft: gall y gair 'ci' gael ei greu fel "ti", y gair 'troed' fel "toed" a gall 'siswrn' gael ei greu fel "didwn".

Ar ôl i blentyn fedru dweud un sŵn unigol, fel arfer mae'n dechrau ei ddefnyddio trwy ei gyfuno â synau eraill i wneud geiriau unigol, yna ychydig eiriau gyda'i gilydd ac yna'n raddol mewn sgysiau bob dydd.

Mae llawer o feysydd medru a datblygu yn rhan o ddatblygiad lleferydd, megis clywed, sylwi, gwrando ar y gwahaniaethau rhwng synau, rhoi synau yn y drefn iawn, ymwybyddiaeth o synau mewn geiriau, ynganu geiriau'n rhwydd, rhythm a 'thôn' y ffordd rydyn ni'n siarad, geirfa a chytgord.

Erbyn yr amser y mae plentyn yn dechrau'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o'u geiriau fel arfer yn eglur i bobl eraill. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn cael trafferth i siarad ac yn dal i'w chael hi'n anodd dweud:

- Synau penodol neu synau mwy cymhleth
- Cyfuniadau o synau mwy cymhleth
- Geiriau hwy gyda llawer o sillafau.

Mae adnabod anghenion lleferydd eich plentyn mor fuan ag sy'n bosibl yn bwysig. Gall lleferydd aneglur sy'n para effeithio ar hyder cymdeithasol a'r ymwybyddiaeth o sŵn sydd ei angen ar gyfer datblygu medrau darllen a sillafu.

Os ydych chi'n pryderu am lleferydd eich plentyn, ewch i gael cyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Mae'r daflen hon yn cynnig syniadau cyffredinol am ffyrdd o helpu datblygiad lleferydd eich plentyn.

Helpu lleferydd eich plentyn

Addaswch awgrymiadau i gyd-fynd ag oed a chyfnod datblygiad eich plentyn.

Gwrandewch ar *yr hyn* mae eich plentyn yn ei ddweud, yn hytrach na sut mae'n ei ddweud.

Ailddywedwch y geiriau mae eich plentyn yn eu dweud yn gywir fel ei fod yn clywed enghreifftiau da. Er enghraifft: Plentyn "Ti yn tytu"; Oedolyn: "Yndi, mae'r ci yn cysgu'n drwm."

Osgowch

- ofyn i'ch plentyn ddweud y geiriau eto
- gofyn i'ch plentyn arafu
- cywiro'ch plentyn
- cymryd arnoch eich bod yn deall beth mae'n ei ddweud wrthyhych chi.

Os yw rhan o sgwrs eich plentyn wedi ei ddeall, ailddywedwch y geiriau rydych chi'n eu gwybod i ddangos beth rydych chi *wedi* ei ddeall.

Arafwch eich *lleferydd eich hun* ychydig i annog eich plentyn ddweud yn arafach. Mae hyn y fwy effeithiol ac yn llai rhwystredig na gofyn i'ch plentyn arafu.

Os nad ydych chi wedi deall beth mae eich plentyn wedi'i ddweud, gofynnwch i'ch plentyn ddangos i chi, pwyntio neu feimio eu neges. Os ydych chi'n dal yn methu â deall, cysurwch eich plentyn ac efallai rhoi cynnig arall arni yn ddiweddarach. Gall llyfr ysgol-cartref helpu i ragweld neu gadarnhau beth mae eich plentyn yn ceisio ei gyfathrebu.

Gyda phlentyn hŷn sydd ag anawsterau lleferydd sy'n para, anogwch ef i:

- ✓ Sylwi pan nad yw'r gwrandäwr yn deall
- ✓ Ailddweud geiriau allweddol i helpu'r gwrandäwr i ddeall
- ✓ Cymryd saib rhwng darnau o wybodaeth ac aros i'r gwrandäwr gadarnhau ei fod wedi deall
- ✓ Defnyddio ystum i ddangos beth a olygir
- ✓ Dal ati a pheidio â rhoi i fyny.

Syniadau ar gyfer gweithgareddau

Cefnogwch fedrau sydd wrth wraidd yr hyn sy'n dylanwadu ar ddatblygiad lleferydd fel gwrando a datblygu ymwybyddiaeth eich plentyn o synau mewn geiriau.

Ar gyfer medrau gwrando

(gweler taflen Helpu eich plentyn oed ysgol i wrando)

Datblygwch ymwybyddiaeth eich plentyn o synau mewn geiriau.

a) Odl

Yn y daflen hon, mae odl yn meddwl gair sy'n terfynu gyda'r un synau ag y mae gair arall, er enghraifft, *ci, fi, cân, tân*.

Mae odlau yn digwydd mewn barddoniaeth ble mae sŵn terfyniad y gair ar ddiwedd un llinell yn cyd-fynd â sŵn terfyniad y gair ar ddiwedd llinell arall.

Ar gyfer plant iau: canwch hwiangerddi gan adael allan y gair diwethaf sy'n odli. A yw eich plentyn yn medru gorffen y pennill?

Ar gyfer plant hŷn: crëwch benillion gwirion neu chwarae mi wela i â'm llygad bach i gyda geiriau sy'n odli: "Mi wela i â'm llygad bach i, rywbeth sy'n odli â 'iâr'."

b) Sillafau

Yn y daflen hon, mae sillafau'n golygu sawl 'curiad' sydd mewn gair. Er enghraifft: mae gan 'llaw' un sillaf, mae gan 'rhedeg' ddwy sillaf, mae gan 'teledu' dair sillaf.

Gall torri geiriau'n sillafau trwy glapio neu neidio helpu plant i ddweud geiriau hwy. Yn gyntaf clapiwch enwau aelodau o'r teulu. Yna rhowch gynnig ar hoff fwydydd neu enwau anifeiliaid. Yna dewiswch rai geiriau o bwnc dosbarth eich plentyn, er enghraifft; cymerwch eich tro i glapio neu neidio'r nifer o guriadau mewn gair pwnc. Didolwch y geiriau pwnc yn bentyrrau yn ôl y nifer o sillafau.

c) Synau

Dewiswch eiriau o bwnc ysgol neu lyfr rydych chi'n ei ddarllen gyda'ch gilydd; nodwch y sŵn cyntaf yn ogystal â'r ystyr. Er enghraifft: "Chwilen...mae hwn yn dechrau gyda'r sŵn 'ch'." Cysylltwch y gair â geiriau eraill sy'n dechrau gyda'r un sŵn: "Beth am dynnu llun o eiriau eraill sy'n dechrau gyda 'ch...' fel 'chwaer'."